



Papur polisi

Crynodeb o'r strategaeth wrthderfysgaeth

Mae'r ddogfen strategaeth hon yn disgrifio rôl y Comisiwn Elusennau a'i ymagwedd at ddelio â phryderon am gamddefnyddio elusennau at ddibenion terfysgaeth a'i strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r risg o derfysgwyr yn camddefnyddio'r sector elusennol. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar waith presennol ac arbenigedd y comisiwn yn y maes hwn. Mae'n esbonio:

- sut mae'r comisiwn yn delio â phryderon ynghylch terfysgwyr yn camddefnyddio'r sector elusennol, pryd y gallai ymyrryd, pam a sut, ac mae'n amlinellu ei brif amcanion ar gyfer y dyfodol
- sut mae'r comisiwn yn gweithio gyda'r sector, rheoleiddwyr eraill, asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau'r llywodraeth, gan geisio atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf

1. Graddfa a natur y bygythiad

Mae terfysgaeth yn fygythiad difrifol a pharhaus i gymdeithas yn y DU, i fuddiannau'r DU dramor ac i'r gymuned ryngwladol ehangach. Mae'r bygythiad hwn yn berthnasol i'r sector elusennol lawn gymaint ag i unrhyw sector arall.

Mae terfysgwyr yn gweithredu neu'n cael eu cysylltu â'r sector elusennol yn hollol annerbyniol ac yn erydu ffydd y cyhoedd mewn elusennau. Nid yw'r risg o gysylltiadau â gweithgareddau terfysgwyr neu gamddefnyddio gan derfysgwyr yn gymwys i'r un graddau ar draws y sector ac nid oes 'un ateb sy'n addas i bawb'.

Gall camddefnyddio elusennau at ddibenion terfysgaeth fod ar amryw o ffurfiau gwahanol, gan gynnwys camfanteisio ar gyllid elusennau, camddefnyddio asedau elusennau, camddefnyddio enw a statws elusennau a sefydlu ffug elusen. Gall hefyd gynnwys ymddiriedolwr yn mynegi'n amhriodol ei fod yn cefnogi sefydliad gwaharddedig.

2. Rôl ymddiriedolwyr elusen

Rhaid i bob ymddiriedolwr elusen fod yn effro i'r risgiau posibl o derfysgaeth, a sicrhau nad oes modd defnyddio adeiladau, asedau, staff, gwirfoddolwyr neu adnoddau eraill eu helusen ar gyfer gweithgareddau a allai, neu sy'n ymddangos eu bod efallai'n cefnogi neu'n cymeradwyo gweithgareddau terfysgol.

Beth bynnag fo maint yr elusen, ei gweithgareddau a'i meysydd gweithredu, bydd y rhai sydd â threfniadau llywodraethu cryf, rheolaethau ariannol a pholisiau a gweithdrefnau rheoli risg sy'n ateb eu hanghenion wedi'u diogelu'n well yn erbyn amryw fathau o gamddefnydd, gan gynnwys cael eu camddefnyddio gan derfysgwyr.

Cyfrifoldeb ymddiriedolwyr elusen yw diogelu eu helusen rhag cael ei chamddefnyddio gan derfysgwyr. Bydd y comisiwn yn eu helpu i wneud hyn, gan bwysleisio gwaith atal, a bydd yn sicrhau bod elusennau'n cyflawni eu gwaith dyngarol gwerthfawr, cyfreithlon a hanfodol a gwaith arall o fewn y gyfraith.

3. Beth yw strategaeth y comisiwn ar gyfer mynd i'r afael â'r bygythiad o gamddefnyddio'r sector elusennol gan derfysgwyr?

Amcan strategol y comisiwn yw adnabod, tarfu ar ac atal terfysgaeth ac achosion difrifol eraill o gamddefnyddio'r sector elusennol. Bydd yn gwneud hyn ei hun a thrwy gydweithredu ag asiantaethau perthnasol eraill trwy'r canlynol:

- cymorth - annog a galluogi'r sector i feithrin ei ymwybyddiaeth a chryfhau ei fesurau diogelu ac amddiffyn
- goruchwyllo - trwy arolygu rheoleiddiol rhagweithiol, a lle y bo angen
- ymyrryd - gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol y comisiwn o amddiffyn ac unioni

Mae ymagwedd 4 llinyn i strategaeth y comisiwn at hyrwyddo'r amcan hwn a diogelu elusennau rhag y risg o gael eu camddefnyddio gan derfysgwyr. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu cydbwysedd rhwng atal, rhwystro ac ymyrryd drwy ymchwilio. Pedwar llinyn ei ymagwedd strategol yw:

1. Ymwybyddiaeth - mae'r comisiwn yn ceisio atal camddefnydd trwy godi ymwybyddiaeth yn y sector o'r risgiau y mae elusennau'n eu hwynebu gan derfysgaeth, gan adeiladu ar eu mesurau diogelu presennol a sicrhau bod ymddiriedolwyr yn cymryd y camau angenrheidiol eu hunain i ddiogelu eu helusen rhag y risg o gael ei chamddefnyddio, a'u bod yn gweithredu'n gyfrifol pan fydd pryderon yn codi.

2. Goruchwyllo ac arolygu - mae'r comisiwn yn monitro'r sector mewn meysydd sydd ag risg uwch er mwyn adnabod, yn gynnar yn y broses, yr elusennau hynny a allai wynebu problemau a chymryd camau priodol i ddatrys y problemau. Mae'r comisiwn yn dadansoddi tueddiadau ac yn llunio proffil o'r risgiau a'r manau gwan er mwyn iddo allu targedu ei adnoddau'n effeithiol i gael yr effaith fwyaf.

3. Cydweithredu - mae'r comisiwn yn parhau i gryfhau ei bartneriaethau â rheoleiddwyr y llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn genedlaethol ac yn rhyngwladol er mwyn iddo allu cydweithredu'n effeithiol i weithredu ar bryderon sydd wedi codi ac amharu ar y rhai sy'n ceisio camfanteisio ar elusennau at ddibenion terfysgaeth.

4. Ymyrryd - mae'r comisiwn yn delio'n effeithiol ac yn gadarn pan fydd camddefnydd, neu'r risg o gamddefnydd, yn dod i'r amlwg a bydd yn trin honiadau neu amheuan o weithgarwch terfysgol sy'n gysylltiedig ag elusennau, neu sy'n cynnwys unigolion sy'n gysylltiedig ag elusennau, fel blaenoriaeth uchel. Bydd y comisiwn yn archwilio pob achos yn unigol ac yn ystyried a yw'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu'n rhesymol ac yn gyfrifol wrth benderfynu ar ei ymateb rheoleiddio. Bydd yn defnyddio ei bwerau rheoleiddio pan fo'n briodol a phan fo'n gymesur i wneud hynny.

Strategaeth wrthderfysgaeth: yr ymagwedd 4 llinyn

